# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

Annwyl Gyd-aelodau,

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw yn iach.

Ymhellach i'r taliadau mae Pat wedi eu paratoi er gwybodaeth, hoffwn roi diweddariad i chi ar waith Cyngor Tref Nefyn am y mis a aeth heibio.

Mae cryn dipyn o drafod wedi bod ar barc chwarae a pharc Y Ddôl, Nefyn gan y daeth yr amser lle roedd caniatad wedi dod i agor y llefydd chwarae agored hyn. Bu pwyllgor 'Y Ddôl' yn cryn drafod arwyddion a chafwyd arwydd o Gyngor Gwynedd, sef yr un mae nhw yn ei ddarparu i barciau chwarae agored yn gyffredinol, derbyniwyd yr arwydd a chafodd ei roi fyny ar railings y parc. Cytunodd y pwyllgor i glymu dwy o'r swings er mwyn cadw at y pellter cymdeithasol ac agorwyd y parc. Ers ei agor, mae llawer o blant yr ardal wedi mwynhau ei ddefnyddio, ond yn anffodus, ar fwy nag un achlysur, mae ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn y ddau barc. Hyn yn cynnwys ymddwyn yn ddigwylidd tuag at aelod i GT, sbwriel hyd y llawr ymhobman, yr arwydd gan gyngor Gwynedd wedi ei falu, a phlant hyn yn dod yno i yfed a smocio dôp. Ac mae'r arwyddion wedi cael eu malu!
Wedi cryn drafod, mae Sophie yr heddwas sydd yn gweithio yn yr ardal, wedi cytuno i roi amser i'r sefyllfa. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r sbwriel ar facebook ac mae Sharon wedi cysylltu a pherchennog y siop kebabs ac mae wedi dweud y byddai yn fodlon cydweithio, gan mai or fan honno mae y sbwriel yn dod ran fwyaf. Awgrymodd Sharon hefyd fod cynghorydd sir Morfa ac Ysgol Nefyn yn cael eu cynnwys, rwyf wedi rhoi cais i Gareth Tudur yn gofyn a fyddai hefyd yn fodlon dod i mewn ar hyn, ymddengys fod mwy nac un o'r plant yn dod o Morfa.
Penderfynwyd hefyd y byddai CT yn ariannu arwyddion newydd ac wedi i Mared rannu esiampl o boster da wedi ei ddefnyddio mewn parciau yn Ne Cymru, mae Lleucu wedi cytuno i gynllunio rhai Cymraeg ar gyfer y parciau yn atgoffa pobl o ddiogelwch pellter 2 fedr a di heintio ac hefyd i waredu sbwriel yn y llefydd cywir. Y gobaith wedyn ydi gofyn i'r cwmni a wnaeth yr arwyddion 'Diolch', fydde nhw yn gwneud rhai i ni o ddefnydd llawer caletach. Gobeithio erbyn y diweddariad nesaf y bydd datblygiad er gwell.

Mae Pat wedi bod yn hynod brysur ac wedi cwblhau yr archwiliad mewnol 2019-20. Rydym wedi ei dderbyn yn ôl, o'r adran gyllid. Y camau nesaf fydd yr archwiliad allanol, sydd ddim yn broses hawdd mynd yn ei chylch (yn ôl beth ddywedodd Luned Jones o'r adran gyllid wrthyf.) A chan ein bod yn y cyfnod ansicr hwn yn ogystal, bydd angen bod yn amyneddgar.

Mae Gruff wedi derbyn sawl cwyn fod gor yrru i lawr Stryd Fawr Nefyn,ac mae deiseb ar gychwyn ynghylch y mater. Yr hyn fyddai yn ddelfrydol, fyddai cael dwy glustog arafu traffig (enw anghyffredin ar beth mor galed), ger Ty Iorwerth ac o flaen Spar, fel y rhai sydd ger Nant y Felin a Glan Pwll, mae cerbydau yn teithio ar dipyn o gyflymder o gyfeiriad Bryn Cynan yn dod i mewn i Nefyn. Rwyf wedi cytuno i ysgrifennu at yr adran drafnidiaeth ar ran y CT yn cefnogi hyn.

Daeth aelod ifanc o'r gymdeithas ymlaen at CT gyda syniad am gystadleuaeth i bobl ifanc yr ardal. Syniad Beca Dobson oedd hysybebu cystadleuaeth ar FB i gynllunio poster i waredu PPE yn y biniau priodol. Byddai y cyntaf yn cael gwobr o voucher £20 ar ail yn cael voucher gwerth £10. Daeth 4 poster i law, a gan fod y safon mor dda, ac yn anodd gwahaniaethu rhyngddynt, penderfynodd y pwyllgor ieuenctid ddyfarnu cydradd gyntaf a chydradd ail.

Cadi Fflur Midwood ac Ifan Alun Midwood o Morfa yn gyntaf
Lena Nel Dobson o Morfa ac Elis Gwyn Jones o Nefyn yn ail.
Byddant yn derbyn eu vouchers yn y post am eu hymdrechion. Braf cael gweithio ar broject bach neis efo'r bobl ifanc.

Dymuna Sharon dynnu ei hymddiswyddiad yn ôl, am y tro, gan ei bod yn dal i fod yn weithgar gyda sawl cynllyn sydd ar y gweill gyda CT, ee y rhai a enwais eisioes uchod a hefyd project offer newydd ar gyfer Parc Y Ddôl, hynny ar ei ganol hefyd.

Ymddengys y bydd rhagor o oedi yn lle mae estyniad y fynwent yn y cwestiwn. Gan fod ein cais ar gyfer arwynebedd yr estyniad yn mesur yn fwy na estyniad arferol, bydd yn rhaid i'r cais fynd o flaen pwyllgor. Gwyddom ers y diweddariad blaenorol fod yr asesiad dwr wedi ei basio, ond eto oherwydd protocol mae'n gorfod mynd o flaen pwyllgor. Nid ydi'r pwyllgor yn cyfarfod yn mis Awst, felly fe all fod yn Fedi arnom o leia, yn cael diweddariad.

Fel y gwyddoch, mae hi wedi bod yn bedlam yn y pentrefi yma yn y pythefnos diwethaf oherwydd y sefyllfa gyda'r llu o ymwelwyr sydd wedi heidio i'r ardal heb fath o gyfyngiadau o gwbl.
Mae'r cwynion sydd wedi dod ataf ers ddiwedd yr wythnos dwytha ma yn ddigalon. Dw i yn ymwybodol mod i wedi bod yn rantio diwrnod or blaen am sefyllfaoedd lle roedd ymwelwyr yn creu niwsans ou hunain, ond, yn y cyfamser mae'r amgylchiadau wedi cymeryd tro arall.
Roedd y sefyllfa i lawr i lan y môr Bwlch, Morfa mor hectic a pheryg lle roedd trafnidaieth yn y cwestiwn , bu raid ir Cyngorydd Gareth Tudur alw'r Heddlu. Ers tridiau, diolch byth mae côns reit i lawr y allt i sdopio pobl barcio yno o gwbl. Roeddynt yn gwneud i arbed talu mewn meysydd parcio penodol.
Mae sawl cwyn wedi dod fod cwn yn rhedeg yn rhydd yn y caeau, am fod y perchnogion yn eu tynnu oddiar eu tenyn y munud mae nhw yn gadael y brif ffordd. Bu raid i mi redeg ar ôl dau derrier oedd yn gyrru defaid Gary Goff yn wyllt i bob cyferiad, gadawodd y perchennog un ci yn y cae a rhedeg i ffwrdd efo'r llall! Bu raid i mi fynd ar ei hôl ac roedd yn ddigon gwirion i redeg i'r cyfeiriad lle roedd yn aros, ac yno roedd y ci arall yn aros amdani. Addawodd i gadw ei chwn ar denyn a dywedais wrthi fod genyf luniau ohonynt, sydd yn wir.
Bu damwain ar Lôn Penrhos yn ymyl ty Mared, nos Sadwn, lle gyrrodd dyn ar ei wyliau yn syth i mewn i fan rywun a oedd wedi parcio ar y lôn, nid oedd yn gallu cerdded am ei fod mor feddw pan ddaeth allan o'r car. Mi oedd hi'n brysur iawn yn y pentref gyda phobl yn cerdded ymhoban ar y pryd. Gallasai fod wedi bod yn ddamwain angeuol.
Mae Liz yn poeni yn ddirfawr a Gareth Tudur hefyd. Dw in pendroni ynglyn ar sefyllfa dai a'r bobl ddwad ma drwy'r amser. Fysai yna neb fysa o gwmpas y tri phentref yma ar hyn o bryd ddim callach ein bod ynghanol pandemig o gwbl.
Mae Rhys Llewelyn wedi cynnig fy mod yn ysgrifennu datganiad i Lywodraeth Cymru parthed y sefyllfa, yn enwedig gan fy mod wedi derbyn gymaint o gwynion. Mae'n bwysig eu bod yn cael tystiolaeth uniongyrchol. Mae angen tynnu sylw at y diffyg rheolaeth sydd ganddom ni ar ymddygiad rhai o'r bobl ma, ac ynglwm yn hyn i gyd i dynnu sylw at y sefyllfa dai haf sydd yma, sydd hefyd allan o bob rheolaeth.

Buaswn yn ddiolchgar o wybod a fyddech yn gefnogol i mi yn gwneud datganiad o'r fath ar ran Cyngor Tref Nefyn?

Wel dyma dynnu at y terfyn. Sori mae wedi bod yn ddiweddariad maith y tro yma, lot o bethau wedi digwydd.
Cymerwch ofal i gyd- gall fod yn benwythnos gwyllt arall.
Diolch i chi am eich amser a'ch cyd weithrediad.

Cofion,
Catrin.

**Taliadau wedi eu gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc - £1411.84 (yn cynnwys ad-daliad treth am fy mod wedi newid 'tax code')
- John Gwynfor Jones – Ail agor bedd Eileen June Thomas - £375.00
- D.M.Parry – Trydydd taliad mynwent Nefyn - £850.00
- Ashley Hughes – Offer gweinyddol - £107.91
- Cliff Hughes – Pedwerydd taliad contract llwybrau - £825.00 & Gwaith ychwanegol - £336.00 - £1161.00

**Taliadau wedi eu derbyn:**

- Manweb - £103.19
- Ifan Hughes – Angladd Robert Griffith Owen - £955.00
- Osian Williams – Rent Cae y Fynwent - £200.00
- G.D.Roberts – Angladd Robert Rowlands - £655.00
- Ifan Hughes – Angladd Maurice Raymond Cotgrove & Helen Iris Griffith - £1165.00

Pat Humphreys - Clerc
Cae'r Wydden, Lon Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS
• Symudol: 07901 704410 • ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

Cadeirydd: Catrin Roberts • 07880 737298